15fed o Fedi 2009

Caniatâd Cynllunio'n Cael ei Roi i'r Cysylltiad Trydan o Iwerddon i Gymru

Mae penderfyniad yn mynd ag Iwerddon "un cam yn nes at annibyniaeth ynni", medd Gweinidog

Fe fydd adeiladu'r prosiect yn dechrau yn 2010, gan ddod â 100 o swyddi i Iwerddon yn ystod y cyfnod adeiladu

15fed o Fedi 2009: Fe wnaeth *An Bord Pleanala* heddiw roi caniatâd i EirGrid adeiladu'r Cydgysylltydd trydan 500 megawat rhwng Iwerddon a Chymru.

Mae'r penderfyniad yn gam allweddol yn natblygiad y cysylltiad trydan hanfodol hwn, fydd yn galluogi trawsyriant dwyffordd o bŵer o 2012, ac a fydd yn galluogi Iwerddon i ddod yn allforiwr pŵer adnewyddadwy.

Fe all y Cydgysylltydd Dwyrain-Gorllewin, fydd oddeutu 260 cilometr o hyd, gludo 500 megawat o drydan - sy'n gyfwerth â chyflenwi pŵer i oddeutu 300,000 o gartrefi. Mae'r cynhwysedd hwn yn gyfystyr fwy neu lai â 10 y cant o'r galw brig dyddiol am drydan yn y gaeaf yn Iwerddon.

Mae Bwrdd Isadeiledd Strategol *An Bord Pleanala* wedi rhoi caniatâd ar gyfer lleoli ac adeiladu gorsaf drawsnewid yn Woodland, Swydd Meath, a gosod ceblau o dan ddaear, yn bennaf o dan ffyrdd cyhoeddus i'r arfordir yn Rush, Swydd Dulyn, oddeutu 45 cilometr / 30 milltir o hyd ac ar wely'r môr, allan i derfyn y blaendraeth.

Fe fydd gwaith adeiladu, sy'n cael ei wneud gan y cwmni peirianneg o Sweden, ABB, yn cymryd dwy flynedd, gan ddechrau yn 2010, ac fe fydd yn creu 100 o swyddi.

Gan groesawu'r newyddion, fe ddywedodd y **Gweinidog dros Gyfathrebu, Ynni ac Adnoddau Naturiol, Eamon Ryan**: "Mae'r Cydgysylltydd Dwyrain-Gorllewin yn isadeiledd hanfodol i'n gwlad ac fe ddaw â llawer o fuddion. Fe fydd cysylltiad i'r Deyrnas Unedig yn gwella diogelwch ein cyflenwad ynni. Fe fydd yn golygu y gallwn ni fewnforio trydan pan fydd angen o'r farchnad yn y Deyrnas Unedig. Yn bwysicach, fe fydd yn golygu y gallwn ni allforio'n trydan i'r Deyrnas Unedig. Pan fydd y gwynt yn chwythu yn Iwerddon, fe allwn werthu'r pŵer hwn i'n cymdogion.

"Fe fydd cydgysylltu hefyd yn cynyddu cystadleuaeth yn y sector trydan, fydd o fudd i gwsmeriaid yn yr hirdymor, gan osod pwysau ar brisiau i ostwng.

"Fe wna'r prosiect hwn ganiatáu inni brysuro'n datblygiad o ynni adnewyddadwy. 'Rydym yn gyfoethog mewn pŵer adnewyddadwy, ac mae arnom angen datblygu hyn i ddiogelu'n cyflenwadau ynni. Fe wna'r prosiect hwn hefyd gynorthwyo'r gwaith o

ddatblygu'r economi gwyrdd, gan ddod â buddsoddiad a swyddi i Iwerddon yn y diwydiant pŵer adnewyddadwy sy'n tyfu. Mae'r buddsoddiad hwn o Ewrop yn hwb arwyddocaol i'r economi Gwyddelig. Mae'n dod â ni un cam yn nes at annibyniaeth ynni."

Fe ddywedodd **Prif Weithredwr EirGrid, Dermot Byrne**: "Mae cyhoeddiad heddiw yn garreg filltir fawr i'r prosiect. Mae paratoi helaeth wedi bod yn cael ei wneud dros y 2 flynedd diwethaf, yn golygu arolygon morol, dethol llwybr, ymgysylltu â'r cyhoedd, newidiadau i'r llwybr ac ymgynghori cyn gwneud cais, a bellach fe gawsom y golau gwyrdd i fynd ymlaen i gyflenwi'r isadeiledd hanfodol hwn i Iwerddon, sydd ar y cledrau ac ar amser.

"Fel ynys o 5 miliwn o bobl sydd fwy na 90% yn ddibynnol ar danwydd ffosil wedi'i fewnforio ar gyfer ein hynni, mae arnom angen uniongyrchol syth a thaer i wella diogelwch ein cyflenwad, ac i wella'n cynhwysedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Fe fydd y Cydgysylltydd Dwyrain-Gorllewin yn ein cynorthwyo ni i wneud y ddau."

DIWEDD

Am ragor o wybodaeth, a fyddech cystal â chysylltu â Gwyn Thomas / Katherine Williams-Davies ar 02920 556143.

Nodyn y Golygydd:

Mae EirGrid ccc yn fusnes ynni Gwyddelig blaenllaw, sydd wedi ymroi'n bwrpasol i ddarparu gwasanaethau trawsyrru a marchnata er budd defnyddwyr trydan. Mae'n gwmni masnachol sydd ym mherchnogaeth y wladwriaeth. Mae EirGrid yn dal trwyddedau fel Gweithredwr System Trawsyrru trydan annibynnol (GST / TSO) a Gweithredwr Marchnadoedd (GM / MO) yn y system fasnachu gyfanwerthol yn Iwerddon, ac mae'n berchen ar Gweithredwr System Gogledd Iwerddon (SONI Ltd), y GST trwyddedig a gweithredwr marchnadoedd yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Gweithredwr Marchnad Trydan Sengl (GMTS / SEMO) yn rhan o'r Grŵp EirGrid.

Fe fydd y Cydgysylltydd Dwyrain-Gorllewin yn cynrychioli buddsoddiad o €600 miliwn. Fe enillodd ABB, y cwmni peirianneg o Sweden, y contract i gynllunio, cynhyrchu a gosod y cydgysylltydd. Fe ddisgwylir y bydd y prosiect hwn yn arwain at oddeutu 100 o swyddi yn Iwerddon yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r prosiect i fod i gael ei gwblhau yn 2012.

Yng Nghynllun Datblygu Cenedlaethol 2007 – 2013, mae Llywodraeth Iwerddon wedi nodi'r angen am gyswllt ynni strategol, ar ffurf cydgysylltydd Cerrynt Union Foltedd Uchel (HVDC) trydanol, i'w ddatblygu rhwng Iwerddon a'r Deyrnas Unedig. Mae'r cydgysylltydd yn cael ei ddatblygu gan EirGrid, gan weithio'n agos gyda'r Comisiwn dros Reoleiddio Ynni, ac fe fydd ym mherchnogaeth EirGrid ar ôl iddo gael ei gwblhau.